SESIWN GYMRAEG 1: CROESO I'M BYWYD

Ystod oedran: 11–16 oed

Amlinelliad Bydd y dysgwyr yn derbyn cyflwyniad i wyth o bobl ifanc sydd wedi'u cyfweld gan ymchwilwyr y prosiect Young Lives, dau o bedair gwlad y prosiect Young Lives (Ethiopia, India, Periw a Fiet-nam). Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i fywydau'r bobl ifanc hyn mewn rhagor o fanylder ac yn ysgrifennu crynodebau am eu bywydau. Yn olaf bydd y dysgwyr yn dechrau ystyried a thrafod beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol rhwng bywydau'r bobl ifanc hyn a'u bywydau nhw, a hefyd resymau posibl am y gwahaniaethau.	
Amcanion dysgu • Chwarae rôl a datblygu empathi tuag at bobl eraill. • Gallu trafod syniadau gyda phobl eraill mewn grŵp. • Defnyddio adnoddau ysgrifenedig i ddatblygu gwybodaeth ehangach am fywydau pobl ifanc ym mhedair gwlad y prosiect Young Lives. • Cydnabod beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol rhwng bywydau'r bobl ifanc hyn a bywydau'r dysgwyr.	**Deilliannau dysgu** • Bydd y dysgwyr yn defnyddio testun er mwyn pennu a chasglu gwybodaeth am fywydau rhai pobl ifanc yng ngwledydd y prosiect Young Lives. • Bydd y dysgwyr yn crynhoi gwybodaeth am fywyd un o'r bobl ifanc hyn. • Bydd y dysgwyr yn chwarae rôl un o'r bobl ifanc hyn. • Bydd y dysgwyr yn trafod eu syniadau gyda phobl eraill.

Cwestiynau allweddol
• Beth ydym yn ei wybod am y bobl ifanc dan sylw?
• Yn ein barn ni sut fath o fywydau sydd ganddynt?
• Ydyn ni'n meddwl bod bywydau'r holl bobl ifanc yn holl wledydd y prosiect Young Lives yr un fath? Pam/pam ddim?
• Beth sy'n wahanol a beth sy'n debyg rhwng bywydau'r bobl ifanc hyn a'm bywyd i?
• Beth yw'r rhesymau posibl am y gwahaniaethau?
	Adnoddau
	• *Sioe sleidiau Gymraeg A* (sleidiau 2–15)
	• Taflenni adnoddau:
	  ○ *Croeso i'm bywyd: Netsa a Hadush (Ethiopia); Sarada a Salman (India); Elmer ac Eva (Periw); Phuoc a H'Mai (Fiet-nam)*
	• Taflenni gweithgaredd:
	  ○ *Yn cyflwyno …; Dod i'ch adnabod; Cymharu bywydau*

Hawlfraint © Oxfam GB. Ni allwch ond atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol.

Noder:

- *Gweithgareddau ac adnoddau a awgrymir yw'r rhain i gefnogi eich addysgu yn hytrach na'i arwain. Efallai y bydd angen mewnbwn addysgu ychwanegol i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth dysgwyr o rai o'r cysyniadau hyn.*
- *Mae proffiliau'r bobl ifanc dan sylw yn yr adnodd hwn yn seiliedig ar gyfweliadau manwl a gynhaliwyd gyda hwy yn 2007 pan oeddent yn 12 i 16 oed. Dewiswyd y grŵp oedran hwn fel y byddai'r bobl ifanc o oedran tebyg i ddysgwyr yn y DU. Er y bu rhai newidiadau sylweddol yng nghymunedau a bywydau'r bobl ifanc hyn ers 2007, bydd rhai pobl ifanc yn y cymunedau hyn o hyd gyda bywydau a straeon tebyg.*

Gweithgaredd 1.1 (*30 munud*)

Yn cyflwyno …

- Bydd dysgwyr wedi cael cyflwyniad ar y prosiect Young Lives yn y *sesiwn Gyflwyno*. Dangoswch sleidiau 3 i 6 i atgoffa'r dysgwyr am gefndir y prosiect Young Lives. Eglurwch y bydd y dysgwyr yn cael gwybod mwy am rai o'r bobl ifanc sydd wedi cael eu cyfweld fel rhan o'r prosiect Young Lives.
- Trefnwch y dysgwyr yn grwpiau o dri. Dosbarthwch gopïau o *Croeso i'm bywyd* fel bod gan bob grŵp broffil ar gyfer un o'r wyth person ifanc dan sylw.
- Mae'n bwysig pwysleisio bod gan bob grŵp broffil sy'n disgrifio bywyd un person ifanc yn unig o un o wledydd y prosiect Young Lives (Ethiopia, India, Periw neu Fiet-nam). Er y gall fod tebygrwydd â bywydau llawer o bobl ifanc eraill yn yr un wlad, efallai y bydd gwahaniaethau sylweddol hefyd. Yn union fel y mae amrywiaeth ymhlith pobl ifanc sy'n byw yn y DU, mae amrywiaeth hefyd ym mywydau pobl ifanc ym mhob un o wledydd Young Lives. Dylech hefyd dynnu sylw at y ffaith bod y bobl ifanc a ddewiswyd ar gyfer yr astudiaeth Young Lives wedi'u cymryd o sampl o gymunedau tlawd, gan fod yr astudiaeth wedi'i sefydlu i edrych ar effaith tlodi ar fywydau pobl ifanc dros amser. Gellir ystyried bod y person ifanc dan sylw a roddir i bob grŵp yn cynrychioli pobl eraill sy'n byw mewn tlodi yn eu gwlad.
- Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen proffil eu person ifanc.
- Dangoswch sleid 7 a rhowch gopi maint A3 o *Yn cyflwyno …* Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu enw eu person ifanc ar y brig.
- Eglurwch y dylai'r dysgwyr, gan ddefnyddio'r gofod o amgylch y llun o'r unigolyn, ysgrifennu'r holl bethau y maent yn eu gwybod am eu person ifanc dan sylw. Gallant hefyd ychwanegu cwestiynau y maent am wybod yr ateb iddynt, neu bethau nad ydynt yn siŵr amdanynt. Ceir cwestiynau sbarduno isod ac ar sleid 7. Nodwch y dylai'r dysgwyr allu ateb y rhan fwyaf, ond nid o reidrwydd yr holl gwestiynau hyn ar gyfer y bobl ifanc dan sylw.
    - *Beth yr ydych yn ei wybod am y person ifanc hwn?*
    - *Beth yw ei oedran?*
    - *Gyda phwy mae ef/hi yn byw?*
    - *Ble mae'n byw?*
    - *Sut beth yw'r cartref?*

Hawlfraint © Oxfam GB. Ni allwch ond atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol.

- *Pa wyliau y mae'n eu dathlu?*
- *A yw'n mynd i'r ysgol?*
- *Os nad yw'n mynd i'r ysgol, beth yw'r rheswm am hyn? A fyddai'n hoffi mynd i'r ysgol?*
- *A yw'n gweithio? Os felly, pam? Beth y mae'n rhaid iddo ei wneud?*
- *Beth y mae'n ei wneud yn ei amser sbâr?*
- *A oes rhaid iddo helpu gartref? Beth y mae'n rhaid iddo ei wneud?*
- *Beth y byddai'n hoffi ei wneud neu fod yn y dyfodol?*

- Yn y gofod o fewn amlinelliad y person, gofynnwch i'r dysgwyr roi geiriau i ddisgrifio sut y maent yn meddwl y gallai'r person ifanc hwn fod yn teimlo am ei fywyd. Dywedwch wrth y dysgwyr y gallant hefyd ysgrifennu geiriau sy'n disgrifio sut beth yw personoliaeth eu person ifanc yn eu barn nhw.
- Pwysleisiwch fod disgrifiadau'r dysgwyr yn seiliedig ar wybodaeth gyfyngedig ac felly ni fyddant yn adrodd yr holl stori am y person ifanc. Trafodwch pa ragdybiaethau y gallai dysgwyr eu gwneud a'u rhesymau dros wneud y rhain.
- Gofynnwch i bob grŵp gyflwyno ei berson ifanc i weddill y dosbarth. Gallai eu taflenni *Yn Cyflwyno …* gael eu harddangos yn yr ystafell ddosbarth. Anogwch y dysgwyr i ychwanegu at y rhain wrth iddynt ddilyn y sesiynau dilynol.

Gweithgaredd 1.2 (40 munud)

Dod i'ch adnabod

- Gofynnwch i bob dysgwr ddefnyddio proffil person ifanc ei grŵp a'i daflen *Yn Cyflwyno …* i ysgrifennu crynodeb am eu person ifanc. Eglurwch y dylai'r crynodeb hwn gynnwys ffeithiau allweddol am gymuned, cartref, bywyd bob dydd, gofal iechyd ac addysg y person ifanc.
- Eglurwch fod y dysgwyr bellach yn mynd i ddefnyddio seddau poeth i ddatblygu eu syniadau ymhellach am fywydau'r bobl ifanc hyn.
- Trefnwch y dysgwyr yn barau gyda rhywun a ysgrifennodd grynodeb o berson ifanc gwahanol. Gofynnwch i'r dysgwyr gymryd eu tro naill ai i fod yn gyfwelydd neu'r person ifanc dan sylw.
- Lle nad yw atebion i gwestiynau'r cyfweliad yn cael eu darparu yng nghrynodebau'r dysgwyr o broffil eu person ifanc, gall y dysgwyr chwarae rôl, gan ddefnyddio eu syniadau eu hunain yn seiliedig ar agweddau eraill ar yr hyn y maent wedi'i ddarllen.
- Nawr gofynnwch i barau o ddysgwyr gyflwyno ei gilydd drwy chwarae rôl o flaen pâr arall. Fel arall, gallai parau o ddysgwyr gynnal eu cyfweliadau ag eraill yn y dosbarth, neu gallai sawl dysgwr holi'r un person ifanc a byddai gweddill y dosbarth yn cyfweld pob un ohonynt. Gallai'r dull diwethaf hwn roi ffocws defnyddiol ar gyfer trafodaeth ynghylch pa dybiaethau y mae pob dysgwr wedi'u gwneud am y bobl ifanc dan sylw a'r rhesymau dros y rhain.
- Darperir ffotograffau a thestun sy'n disgrifio bywydau'r wyth person ifanc dan sylw yn sleidiau 8 i 15.

Hawlfraint © Oxfam GB. Ni allwch ond atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol.

Gwahaniaethu

- *Gwneud pethau'n haws: Defnyddiwch y cwestiynau yn* Dod i'ch adnabod *i arwain cyfweliadau'r dysgwyr a chrynodebau ysgrifenedig. Gallent ddefnyddio'r bylchau o dan y cwestiynau i gofnodi eu hatebion.*
- *Gwneud pethau'n anoddach: Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu crynodeb am berson ifanc gwahanol i'r un y cawsant wybod amdano yng Ngweithgaredd 1.1.*

Gweithgaredd 1.3 (40 munud)

Cymharu bywydau

- Trefnwch y dysgwyr yn barau a rhowch gopi o *Cymharu bywydau* i bob pâr. Rhowch broffiliau i bob pâr ar gyfer dau o'r bobl ifanc dan sylw. Gofynnwch iddyn nhw lenwi'r siart i ddangos beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol rhwng bywydau'r ddau berson ifanc hyn a'u bywydau eu hunain. Dylech sicrhau bod o leiaf rai dysgwyr yn cwblhau'r siart ar gyfer dau berson ifanc o fewn yr un wlad fel y gallant ymchwilio i anghydraddoldebau rhwng y rhywiau ac anghydraddoldebau rhwng ardaloedd dinesig/gwledig o fewn gwlad.
- Caniatewch amser i'r dysgwyr drafod eu hymatebion cychwynnol a'u syniadau am yr wyth person ifanc hyn. Gallech gynnwys y cwestiynau canlynol:
    - *Beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol rhwng bywydau'r bobl ifanc hyn?*
    - *Beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol rhwng bywydau'r bobl ifanc dan sylw a'ch bywyd eich hun?*
    - *A oes unrhyw wahaniaethau rhwng y ddau berson ifanc dan sylw ym mhob gwlad? Defnyddiwch y cwestiwn hwn i dynnu sylw at y ffaith bod gwahaniaethau rhwng dysgwyr yn y dosbarth yn union fel y mae gwahaniaethau rhwng pobl ifanc ym mhob un o'r gwledydd sy'n rhan o brosiect Young Lives.*
    - *A oes unrhyw wahaniaethau rhwng y bechgyn a'r merched?*
    - *A oes unrhyw wahaniaethau rhwng y bobl ifanc sy'n byw mewn trefi a dinasoedd a'r rhai sy'n byw mewn pentrefi neu gefn gwlad?*
    - *Yn eich barn chi, beth allai fod y rhesymau dros y gwahaniaethau hyn?*

Gwahaniaethu

- *Gwneud pethau'n haws: Gofynnwch i'r dysgwyr gymharu un o'r bobl ifanc dan sylw â nhw eu hunain yn unig.*
- *Gwneud pethau'n anoddach: Gofynnwch i'r dysgwyr gymharu tri neu bedwar o'r bobl ifanc dan sylw â nhw eu hunain a/neu weld a allant wneud datganiadau cyffredinol sy'n berthnasol i bawb.*

Hawlfraint © Oxfam GB. Ni allwch ond atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol.

Syniad pellach

- Gallech gynnal y cyfweliadau yng Ngweithgaredd 1.2 fel gweithgaredd carwsél. Gofynnwch i'r dysgwyr dreulio ychydig funudau mewn parau yn gofyn cwestiynau i'w gilydd am eu person ifanc dan sylw. Ar ôl pum munud, gofynnwch i'r dysgwyr symud ymlaen a threulio pum munud yn siarad â rhywun arall. Ailadroddwch ychydig o weithiau fel bod dysgwyr yn cael cyfle i gael gwybod am gynifer o'r wyth o bobl ifanc â phosibl.

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB/Young Lives
Gallwch ddefnyddio'r lluniau a'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam a Young Lives. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.

Croeso i'm bywyd

Netsa – ardal ddinesig yn Ethiopia

Fy enw i ydy Netsa *(Ne-as-sa)* ac rydw i'n 12 oed. Rydw i'n byw gyda fy mam faeth mewn ardal dlawd iawn o fewn dinas Addis Ababa, prifddinas Ethiopia. Rydw i'n unig blentyn.

Cydnabyddiaeth y llun: © Young Lives/Antonio Fiorente

Yr wyf ym Mlwyddyn 5 yn un o ysgolion y llywodraeth. Dechreuais yn yr ysgol feithrin pan oeddwn yn bedair oed. Arhosais yno am dair blynedd ac yna fe wnes i gwblhau Blwyddyn 1 a 2 mewn ysgol gynradd breifat. Ar ôl hynny, symudais i un o ysgolion y llywodraeth. Roedd yn rhaid i mi roi'r gorau i'r ysgol breifat oherwydd bod y ffioedd wedi codi ac ni allai fy mam eu fforddio mwyach.

Os ydych yn fyfyriwr newydd yn ysgol y llywodraeth, rydych yn cael eich gorfodi i ddechrau eto o flwyddyn 1 oni bai fod gennych bapur rhyddhau o'ch ysgol arall. Nid oedd gennyf y papur hwn. Pe na bawn wedi gorfod dechrau o flwyddyn 1 eto, byddwn ym mlwyddyn 7 'nawr.

Rydw i'n hoffi fy ysgol. Mae llyfrgell yno ac maen nhw wedi rhoi llyfrau newydd i ni. Rydw i'n astudio Saesneg, Amharic, Mathemateg, Gwyddoniaeth a Daearyddiaeth.

Rydw i'n cyrraedd adref o'r ysgol am 4.30pm ac yna'n helpu gartref tan 6.00pm. Rydw i'm helpu fy mam drwy olchi'r llestri, coginio, glanhau'r tŷ a gwneud y gwelyau. Mae fy mam faeth yn pobi *injera* i'w werthu yn y gymdogaeth.

Ar ddydd Sul rydw i'n mynd i'r eglwys yn y bore. Ar ôl hynny rydw i'n bwyta fy mrecwast ac yn cael bath. Yna, rydw i'n golchi fy ngwisg ysgol ac yn gwneud tasgau o amgylch y cartref. Rydw i'n chwarae rhwng 5.00pm a 6.00pm ac rydw i'n astudio gyda'r nos cyn mynd i'r gwely.

Mae fy mam faeth yn gofalu amdanaf. Mae hi'n fy nysgu sut i wneud pethau ac yn prynu esgidiau, dillad a deunyddiau addysgol i mi. Credaf y dylai rhieni gefnogi eu plant nes iddynt orffen eu haddysg, cael swydd a dechrau byw'n annibynnol. Byddaf yn cefnogi fy mam faeth ar ôl i mi gwblhau fy addysg.

Rydw i'n credu y byddaf yn cael bywyd gwell na'm mam oherwydd os byddaf yn gorffen fy addysg ac yn cael swydd byddaf yn byw bywyd gwell. Astudiodd fy mam hyd at flwyddyn 7. Rwyf am orffen ar ddiwedd blwyddyn 12 a mynd i'r brifysgol. Hoffwn fod yn feddyg yn y dyfodol.

Gair allweddol

- Math o fara fflat yw *Injera*.

Hawlfraint © Oxfam GB. Ni allwch ond atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol.

Croeso i'm bywyd

Hadush – ardal wledig yn Ethiopia

Fy enw i yw Hadush (Haa-doo-sh) ac rydw i'n 13 oed. Rydw i'n byw gyda fy nhad, llysfam a brodyr a chwiorydd hŷn. Rydym yn byw mewn pentref mewn ardal wledig mewn rhan ogleddol o Ethiopia o'r enw Tigray. Bu farw fy mam pan oeddwn yn fach a phriododd fy nhad eto chwe blynedd yn ôl.

Dydw i ddim yn mynd i'r ysgol ond mae fy chwiorydd yn gwneud hynny. Rydw i'n gofalu am y gwartheg yn lle hynny. O bryd i'w gilydd rydw i'n mynd i ysgol draddodiadol yn nhŷ athro sy'n offeiriad. Rydw i'n hoffi'r ysgol hon. Rydw i'n bwriadu dechrau mynd i'r ysgol yn rheolaidd y flwyddyn nesaf.

Cydnabyddiaeth y llun: © Young Lives/ Antonio Fiorente

Mae ein cartref mewn clos. Y tu mewn mae tri adeilad – yr *hidmo*, *seqela* a'r *adarash*. Mae'r *hidmo* (sy'n golygu 'cartref') yn ystafell fach wedi'i gwneud o garreg. Mae'r llawr wedi'i wneud o bridd, ac mae ei waliau'n arw. Lloc gwartheg yw'r *seqela*. Ystafell gysgu yw'r *adarash* gyda matres draddodiadol ar wely wedi'i wneud o fwd. Mae gennym lamp a radio ond dim byrddau na chadeiriau. Nid oes gennym drydan ond mae cynlluniau ar y gweill i osod cyflenwad trydan yn ein cymuned yn y dyfodol.

Rydw i'n gweithio i gefnogi fy nheulu. Rydw i'n hoffi fy ngwaith ac yn falch o'i wneud. Rydw i'n gweithio tua deng awr y dydd, rhwng 8.00am a 6.00pm. Rydw i hefyd yn helpu fy llysfam i gasglu coed tân a nôl dŵr.

Rydw i'n hapus ar hyn o bryd oherwydd bod fy mrawd hŷn wedi dychwelyd adref o'r fyddin. Cyrhaeddodd yn ôl o faes y gad yn fyw ac nid oedd y rhyfel wedi effeithio arno. Roeddwn i'n hapus iawn am hynny! Daeth fy mrawd â'r holl bethau y gofynnais iddo, fel pâr o esgidiau, siwt a rhai sandalau. Mae gan bobl sy'n byw'n dda yr holl bethau hyn – esgidiau, trowsus, siacedi a chig fel cig oen a chyw iâr.

Ein gwyliau pwysicaf yw'r Pasg, y Flwyddyn Newydd a'r Ystwyll. Rydym yn dathlu drwy fwyta cyw iâr neu gig oen a phrynu dillad newydd.

Gallaf wneud popeth – nid oes dim yn amhosibl i mi.

Hawlfraint © Oxfam GB. Ni allwch ond atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol.

Croeso i'm bywyd

Sarada – ardal wledig yn India

Fy enw i yw Sarada (*Saa-ru-daa*) ac rydw i'n 12 oed. Yr wyf yn byw mewn pentref gwledig yn ne talaith Telangana yn India. Rydw i'n byw gyda fy mam, chwaer a brawd. Cefais fy ngeni'n anabl. Gallaf gerdded pellteroedd byr ond yr wyf yn ei chael yn anodd sefyll am unrhyw gyfnod o amser.

Yr wyf ym mlwyddyn olaf yr ysgol gynradd uchaf. Rydw i'n credu bod addysg yn bwysig iawn. Yn yr ysgol, rydw i'n cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau allgyrsiol ac rydw i wedi ennill rhai gwobrau. Ni chafodd fy mam addysg ac mae'n credu ei bod yn bwysig iawn bod fy mrawd a minnau'n mynd i'r ysgol. Rydw i wedi dysgu llawer o bethau gan fy mam, fel sut i goginio reis. Y tro cyntaf i mi geisio coginio reis, llosgais fy mysedd ond 'nawr rwy'n gwybod sut i'w wneud.

Cydnabyddiaeth y llun: © Young Lives/Sarika Gulati

Rydw i'n caru fy nheulu, er fy mod yn dadlau gyda fy mrawd weithiau. Mae fy nhad wedi ailbriodi ac mae'n byw gyda'm llysfam a'm llysfrawd a'm llyschwiorydd yn Mumbai. Maen nhw'n dod i ymweld â ni unwaith y flwyddyn.

Does gen i ddim llawer o ffrindiau yn yr ysgol. Fy ffrind gorau oedd merch hŷn o'r enw Sabeena, ond priododd yn 15 oed. Dydw i ddim yn ei gweld hi lawer mwyach ac rydw i'n ei cholli hi. Dydw i ddim yn credu y dylai menywod ifanc briodi'n rhy gynnar. Mae llawer o ferched yn fy mhentref yn briod yn 14 neu'n 15 oed. Rydw i'n credu y dylen nhw aros nes eu bod yn 20 oed. Roedd fy llyschwaer yn Mumbai yn briod yn 12 oed ac erbyn hyn mae ganddi dri o blant.

Roeddwn i'n arfer chwarae y tu allan ond nid yw fy mam yn gadael i mi wneud hyn erbyn nawr ac mae'n rhaid i mi aros i mewn a gwneud tasgau yn y tŷ. Roeddwn i'n teimlo'n drist na allwn chwarae mwyach, ond yna cytunais er lles fy mam. Dyma'r sefyllfa yn y rhan fwyaf o gartrefi yma. Unwaith y bydd merched yn cyrraedd y glasoed, nid ydynt bellach yn cael chwarae y tu allan.

Yn y dyfodol hoffwn astudio a mynd i'r ysgol uwchradd. Fodd bynnag, mae'r ysgol uwchradd wyth cilomedr i ffwrdd ac mae'n rhaid i chi fynd ar fws. Mae teithio ar y bws yn gwneud i mi deimlo'n benysgafn ac yn sâl. Mae llawer o ferched yn ein pentref yn rhoi'r gorau iddi erbyn yr ysgol uwchradd gan nad yw eu rhieni am iddynt deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ar eu pennau eu hunain gan eu bod yn ofni o ran eu diogelwch.

Hoffwn fod yn farnwr er mwyn i mi allu gwella cymdeithas ac atal pobl rhag gwneud pethau anghywir a niweidio eraill. Neu hoffwn fod yn fenyw fusnes a dechrau canolfan deilwrio fach neu agor siop i werthu nwyddau yr wyf wedi'u gwnïo. Un diwrnod, hoffwn fod yn berchen ar fy nhŷ fy hun ac efallai priodi.

Hawlfraint © Oxfam GB. Ni allwch ond atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol.

OXFAM

Croeso i’m bywyd

Salman – ardal ddinesig yn India

Fy enw i yw Salman (*Sull-maan*) ac rydw i’n 12 oed. Yr wyf yn byw mewn cymdogaeth dlawd yn ninas Hyderabad, prifddinas talaith Telangana yn India. Rydw i’n dod o deulu Mwslimaidd. Rydw i’n byw gyda fy mam a dau frawd a chwaer iau a dau hŷn. Bu farw fy nhad o drawiad ar y galon pan oeddwn yn chwe blwydd oed. Rydym yn byw yn agos at ganol y ddinas. Rydw i’n hoffi lle rydyn ni'n byw. Mae'r bobl eraill yn ein cymuned yn bobl garedig. Gallwch ymddiried ynddynt.

Rhoddais y gorau i'r ysgol ac rwyf bellach yn gweithio fel cynorthwyydd gwerthu mewn siop esgidiau. Mae fy mam yn gweithio fel gwas, yn gofalu am dŷ person cyfoethog. Mae fy mam yn dweud na all fforddio ein hanfon i'r ysgol. Mae bywyd yn galed iawn iddi heb fy nhad. Rydw i’n colli fy nhad hefyd. Rydw i’n cadw llun ohono gyda mi.

Rydw i’n ennill 30 rwpî (tua 30c) y dydd, ac rydw i’n rhoi’r rhan fwyaf i'm mam. Rydw i’n cadw pum rwpî fel fy arian gwario i mi fy hun. Weithiau mae'r cwsmeriaid yn rhoi tips i mi gan fy mod yn dlawd. Mae fy mam yn rhoi pecyn cinio i mi ar gyfer gwaith bob dydd. Mae fy ffrindiau'n gweithio hefyd, un fel masnachwr stryd ac un mewn siop ddillad.

Mae tri bachgen arall yn gweithio yn y siop esgidiau. Mae'r un iau yn gweithio yn y prynhawn ac yn astudio yn y bore. Rydw i’n hoffi perchennog y siop lle rydw i’n gweithio oherwydd ei fod yn gofalu am y bechgyn eraill a fi. Mae ganddo hefyd synnwyr digrifwch da ac mae'n dweud jôcs.

Cydnabyddiaeth y llun: © Young Lives/ Farhatullah Beig

Bob dydd rydw i’n treulio deg awr yn cysgu fel arfer, wyth awr yn gweithio a chwe awr yn chwarae. Pan oeddwn i'n iau roedden ni'n arfer chwarae yn y mwd. Roedden ni'n arfer bwyta mwd ac roedd rhai plant yn rhoi mwd ar eu pennau! Roeddem hefyd yn arfer chwarae marblis. Ond nawr dim ond pan fydda i'n dod adref o'r gwaith y gallaf chwarae. Rydw i hefyd yn gwylio'r teledu. Rydw i'n hoffi rhaglenni comedi fel *Mr Bean*.

Credaf fod yn rhaid imi weithio'n galed i ennill arian a chael iechyd da. Nid oes gennyf ddewis ond parhau i weithio.

Dydw i ddim yn siŵr beth fyddwn i eisiau ei wneud yn y dyfodol. Efallai un diwrnod y byddaf yn dechrau fy siop fy hun. Neu efallai y byddaf yn mynd yn ôl i'r ysgol.

Hawlfraint © Oxfam GB. Ni allwch ond atgynhyrchu’r ddogfen hon at ddibenion addysgol.

Croeso i’m bywyd

Elmer – ardal ddinesig ym Mheriw

Fy enw i yw Elmer (*El-mer*) ac rydw i’n 12 oed. Rydw i’n byw gyda fy chwaer hŷn Eva yn Lima. Lima yw prifddinas Periw. Des i'r ddinas o'm pentref yn gynharach eleni er mwyn i mi allu dechrau yn yr ysgol uwchradd. Rydw i’n colli fy nheulu ond rydw i’n gwybod y byddaf yn mynd adref un diwrnod.

Mae fy chwaer Eva yn 25 oed ac mae ganddi ddau o blant bach. Mae ei gŵr yn saer coed. Symudais i'r ddinas hefyd i helpu i ofalu am blant Eva. Rydw i’n gofalu amdanynt yn y prynhawniau ac ar ddydd Sadwrn pan fydd hi'n gweithio mewn bwyty. Mae fy neiant yn dair a chwech oed. Weithiau maen nhw'n ddrwg. Dydyn nhw ddim yn gwneud yr hyn rydym yn gofyn iddyn nhw ei wneud ac maen nhw’n chwarae gyda'r stereo.

Rydym yn byw wrth ymyl ffordd brysur mewn rhan boblog o'r ddinas. Mae'n agos at fy ysgol. Mae ein fflatiau ar yr ail lawr uwchben siop trwsio ceir. Mae'r ystafell fyw a'r gegin yn fawr ac mae gennym offer trydanol: teledu, peiriant chwarae DVDs, stereo, oergell a phopty.

Roedd symud i Lima yn golygu newid mawr yn fy mywyd. Symudais o'r ysgol gynradd yn fy mhentref i ysgol uwchradd fawr yn y ddinas. Rydw i’n hoffi'r iard chwarae yn fy ysgol newydd er yr hoffwn petai’n lanach. Rydw i’n credu bod yr ysgol uwchradd yn fwy anodd na'r ysgol gynradd oherwydd bod mwy o waith cartref ac mae mwy o athrawon.

Gartref yn fy mhentref, roeddwn yn helpu fy rhieni ar ein fferm. Roeddwn i'n gofalu am yr anifeiliaid, yn gweithio'r tir ac yn casglu coffi. Roeddwn weithiau’n derbyn ychydig o arian am wneud hyn. Arferwn dreulio llawer o amser yn chwarae gyda fy chwaer fach ac yn gofalu am fy mrawd ieuengaf.

Cydnabyddiaeth y llun: © Young Lives/Sebastian Castañeda Vita

Yn Lima, rydw i’n hoffi mynd allan a chwarae yn y parc. Dydw i ddim yn hoffi'r holl geir a sŵn. Mae fy mhentref yn fwy dymunol oherwydd bod mwy o goed.

Rydw i am gwblhau'r ysgol uwchradd, mynd i'r brifysgol a dod yn feddyg. Hoffwn gael gwraig a phlant ond nid nes fy mod yn 25 oed o leiaf. Yn y dyfodol hoffwn deithio ac ymweld â lleoedd eraill.

Hawlfraint © Oxfam GB. Ni allwch ond atgynhyrchu’r ddogfen hon at ddibenion addysgol.

OXFAM

Croeso i’m bywyd

Eva – ardal wledig ym Mheriw

Fy enw i yw Eva (*Aa-va*) ac rydw i’n 14 oed. Rydw i’n byw gyda fy mam a'm tad mewn pentref gwledig bach yn ucheldiroedd deheuol yr Andes ym Mheriw. Rydw i’n mynd i ysgol mewn dinas gyfagos – mae'n cymryd 45 munud i mi gyrraedd yno. Hoffwn fyw yn y ddinas un diwrnod.

Aeth fy nhad yn sâl y llynedd. Cafodd anaf i'w gefn ac ni all weithio mwyach. Ers hynny rwyf wedi gorfod gweithio ar y fferm ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae angen i mi weithio i allu fforddio dillad a'r tocyn dwyffordd ar gyfer y bws ysgol. Rydw i’n hoffi gweithio ond dydw i ddim yn ei hoffi gweithio'n hwyr.

Mae pawb yn fy nheulu yn darllen ac yn ysgrifennu ond ychydig iawn o lyfrau sydd gennym gartref. Roeddwn i'n hoffi'r ysgol gynradd yn fwy nag ysgol uwchradd oherwydd bod llai o waith ac roedd gen i fwy o ffrindiau.

Yn y boreau yn ystod yr wythnos, rydw i’n coginio ac yn gwneud tasgau cyn yr ysgol. Mae'n rhaid i mi olchi dillad ein teulu. Rydw i’n hoffi gwneud hyn. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae fy mam wedi fy nysgu i goginio'n llawer gwell. Gyda'r nos, rydw i’n gwylio'r teledu.

Maen nhw'n ein dysgu'n dda yn fy ysgol. Mae llyfrgell, gerddi a gweithdy. Rydyn ni'n tyfu llysiau yn yr ysgol ac rydw i’n chwarae pêl-foli.

Cydnabyddiaeth y llun: © Young Lives/Mariluz Aparicio

Does dim digon o ystafelloedd dosbarth yn yr ysgol ond maen nhw'n adeiladu rhai newydd. Mae gan rai ystafelloedd dosbarth ddwy adran astudio lle mae rhai myfyrwyr yn mynd yn y boreau ac mae rhai yn mynd yn y prynhawniau. Rydw i’n astudio yn y prynhawniau ar hyn o bryd ond byddai'n well gennyf astudio yn y boreau.

Rydw i am ddysgu a chwblhau'r ysgol. Rydw i’n credu y bydd yr ysgol yn ddefnyddiol ar gyfer fy nyfodol. Fy mreuddwyd yw mynd i'r brifysgol i astudio nyrsio.

Hawlfraint © Oxfam GB. Ni allwch ond atgynhyrchu’r ddogfen hon at ddibenion addysgol.

OXFAM

Croeso i’m bywyd

Phuoc – ardal ddinesig yn Fiet-nam

Fy enw i yw Phuoc (*F-ooo-c*) ac rydw i’n 16 oed. Rydw i’n byw gyda fy nheulu yn ninas Da Nang. Rydw i ym Mlwyddyn 11. Fy ysgol i yw un o'r ysgolion mwyaf yn y ddinas. Rydw i’n falch iawn o fynd yno. Roedd yn rhaid i fi sefyll arholiad mynediad a bu'n rhaid i mi astudio'n galed i'w basio.

Mae'n cymryd 20 munud i mi feicio i'r ysgol bob dydd. Mae gen i chwaer hŷn sydd yn ei blwyddyn olaf o astudio pensaernïaeth. Rydw i’n ceisio astudio cymaint ag y gallaf. Rydw i’n arbenigo mewn Saesneg, llenyddiaeth a mathemateg. Rydw i hefyd yn cymryd rhan mewn rhai gweithgareddau allgyrsiol fel karate, ac rydw i’n mynd i’r Sgowtiaid ar ddydd Sul.

Yn fy amser rhydd, rydw i’n helpu fy rhieni i ofalu am eu siop. Rydw i hefyd yn helpu fy mam i lanhau’r llawr ac weithiau i goginio. Yn y Sgowtiaid dysgais sut i goginio, mynd i'r farchnad a dod o hyd i bren. Weithiau rydw i’n mynd ar dripiau a chael picnic gyda fy nosbarth. Yn ogystal ag astudio, rydw i hefyd yn hoffi darllen llyfrau a gwrando ar gerddoriaeth. Weithiau rydw i’n gwylio'r teledu neu'n darllen papurau newydd. Rydw i’n hoffi ffilmiau arswyd a ffilmiau ymladd. Pan fydda i'n gwylio'r teledu, byddaf fel arfer yn gwylio'r Sianel Wyddoniaeth er fy mod hefyd yn gwylio cartwnau o bryd i’w gilydd am hwyl.

Cydnabyddiaeth y llun: © Young Lives/Pham Viet Anh

Weithiau rydw i’n mynd yn ôl i ymweld â thref enedigol fy mam yng nghefn gwlad. Rydw i'n hoffi cefn gwlad. Mae bywyd yn hamddenol yno ac yn fwy cyfforddus. Ond rydw i’n credu bod yn well gen i'r ddinas. Mae'n haws gweithio yn y ddinas ac mae ansawdd bywyd yn uwch.

Rydw i am raddio o'r ysgol uwchradd a chael fy nerbyn i brifysgol. Fy mreuddwyd yw cael gradd Meistr yn y dyfodol neu efallai hyd yn oed PhD. Hoffwn weithio yn y diwydiant twristiaeth neu mewn cysylltiadau tramor. Rydw i am ymdrechu'n galed ac astudio dramor, efallai yn y DU neu Awstralia. Hyd yn oed os byddaf yn mynd i ffwrdd i astudio, hoffwn ddychwelyd i Da Nang un diwrnod.

Hawlfraint © Oxfam GB. Ni allwch ond atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol.

Croeso i’m bywyd

H’Mai – ardal wledig yn Fiet-nam

Fy enw i yw H'Mai (*H-My*) ac rydw i’n 13 oed. Rydw i’n byw gyda'm teulu mewn ardal wledig dlawd yn nhalaith Phu Yen yn Fiet-nam. Fi yw'r ail hynaf o bedwar o blant. Yr ydym yn dod o grŵp lleiafrifoedd ethnig H'Roi.

Cydnabyddiaeth y llun: © Young Lives/Nguyen Quang Thai a Trinh Van Dang

Roedd yn rhaid i mi roi'r gorau i'r ysgol reolaidd ym mlwyddyn 6 gan nad oedd gan fy rhieni ddigon o arian i dalu'r ffioedd. Er bod addysg gynradd am ddim yn Fiet-nam, mae nifer o ffioedd ychwanegol. Mae llawer o blant yma'n gadael yr ysgol uwchradd am nad yw eu rhieni'n gallu fforddio ffioedd yr ysgol na threuliau eraill, neu am eu bod yn byw'n rhy bell o'r ysgol ac nad oes ganddynt unrhyw fath o gludiant, neu am fod yn rhaid iddynt weithio yn y caeau ac felly maent yn mynd ar ei hôl hi gyda'u gwaith ysgol.

Rydym yn byw mewn tŷ eithaf bach gyda dwy ystafell: ystafell fyw ac ystafell wely. Mae adeilad traddodiadol arall y tu ôl i'r tŷ, gyda chegin ac ystafell wely, lle rydym yn treulio'r rhan fwyaf o'n hamser. O flaen ein tŷ mae ffynnon. Nid oes gennym fwrdd na chadeiriau ac nid oes unrhyw drydan yn ein tŷ ni. Mae cyflenwad trydan yn ein pentref ond ni allwn fforddio'r cysylltiad. Rydw i’n breuddwydio am gael trydan gartref un diwrnod.

Rydw i’n gweithio ar fferm y teulu yn ystod y dydd ac yn mynd i'r ysgol nos rhwng 7.00pm a 9.00pm ar nos Fawrth, nos Iau a nos Sadwrn. Rydw i bellach ym Mlwyddyn 9. Ar y fferm rydw i’n helpu â'r gwartheg a thorri glaswellt iddynt ei fwyta. Rydym yn berchen ar tua hectar o dir ac rydym yn tyfu reis, ffa, casafa a gwenith.

Pan nad wyf yn gweithio neu'n astudio, rydw i’n gofalu am fy mrodyr a'm chwiorydd iau, gan gynnwys fy mrawd iau sy'n fabi. Rydw i hefyd yn helpu fy mam gyda'r gwaith tŷ. Rydw i’n golchi’r dillad ac yn coginio. Rydw i’n treulio rhywfaint o fy amser rhydd gyda fy nghefnder, sy'n byw drws nesaf i ni.

Mae ein teulu'n iach ar y cyfan, sy'n beth da gan fod y clinig agosaf bum cilomedr i ffwrdd ac mae'r ysbyty agosaf naw cilomedr i ffwrdd. Nid yw'r ffordd i'r clinig a'r ysbyty yn dda iawn felly gall fod yn anodd cyrraedd yno. Mae plant dan chwech oed yn cael triniaeth am ddim yn y clinig ac mae fy mam yn mynd â'm brawd a'm chwaer iau yno i gael archwiliadau rheolaidd. Mae meddygon preifat yn yr ardal ond dydw i ddim yn adnabod llawer o bobl sy'n eu defnyddio. Rydym hefyd weithiau'n defnyddio meddyginiaethau a meddygon traddodiadol. Mae dau o iachawyr traddodiadol yn ein pentref. Does dim rhaid i ni dalu unrhyw beth i'r iachawyr – rydyn ni'n rhoi cyw iâr neu borc iddyn nhw.

Hawlfraint © Oxfam GB. Ni allwch ond atgynhyrchu’r ddogfen hon at ddibenion addysgol.

Yn cyflwyno …

Enw'r person ifanc: _____



Hawlfraint © Oxfam GB. Ni allwch ond atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol.

Dod i'ch adnabod

Nodwch na fydd eich partner o bosibl yn gwybod yr ateb i bob un o'r cwestiynau hyn.

- Beth yw eich enw?
- Beth yw eich oedran?
- Ble yr ydych yn byw?
- A ydych yn byw mewn tref neu ddinas (ardal ddinesig) neu mewn pentref neu yng nghefn gwlad (ardal wledig)?
- Gyda phwy yr ydych yn byw?
- Disgrifiwch eich cartref
- Ym mha fath o gymuned yr ydych yn byw?
- Pa weithgareddau yr ydych yn eu gwneud ar ddiwrnod arferol?
- A ydych yn mynd i'r ysgol? Os ydych, ym mha flwyddyn ydych chi? Sut fath o ysgol ydy hi? Os nad ydych, pam nad ydych yn mynd i'r ysgol?
- A oes rhaid i chi wneud unrhyw waith am dâl? Os oes, pa fath o waith yr ydych yn ei wneud?
- A oes rhaid i chi helpu o amgylch y cartref? Os oes, beth y mae'n rhaid i chi ei wneud?
- Beth yr ydych yn mwynhau ei wneud yn eich amser rhydd?
- Beth yr hoffech ei gyflawni yn y dyfodol?

Hawlfraint © Oxfam GB. Ni allwch ond atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol.

Cymharu bywydau

		Enw'r person ifanc cyntaf: _____	Enw'r ail berson ifanc: _____	Fi fy hun
Beth sy'n debyg?				
Beth sy'n wahanol?				

Hawlfraint © Oxfam GB. Ni allwch ond atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol.